


# Cerddoriaeth

# Gemau balŵns

**Mae balŵns llachar yn gallu bod yn ddefnyddiol iawn gan eu bod yn ysgafn ac yn hawdd eu defnyddio. Mae posib eu defnyddio i gynhesu ac ar gyfer gemau cerddorol.**

## Y Gêm Enwau

Y preswylwyr yn eistedd mewn cylch llydan ac yn pasio neu dapio’r balŵn i unrhyw un o’u dewis.

Mae pwy bynnag sy’n derbyn y balŵn yn galw ei enw cyn ei phasio ymlaen.

## Delwau Cerddorol

Y preswylwyr yn eistedd mewn cylch llydan ac yn pasio neu dapio’r balŵn i rywun arall.

Dim ond pan mae’r gerddoriaeth yn chwarae maen nhw’n cael symud y balŵn. Pan mae’r gerddoriaeth yn stopio, mae pawb yn aros mor llonydd â phosib.

1



# Cerddoriaeth

# Gwneud offerynnau

**Does dim angen offerynnau go iawn er mwyn creu cerddoriaeth. Gallwch greu eich offerynnau eich hun!**

**Gallwch greu drymiau, offerynnau ysgwyd neu offerynnau llinynnol gan ddefnyddio eitemau tŷ:**

- **Mae rhoi pys sych mewn potel blastig yn creu offeryn ysgwyd gwych**
- **Mae ymestyn bandiau lastig ar draws twb hufen iâ gwag yn creu offeryn i'w blycio**
- **Mae posib defnyddio tuniau Pringles gwag (gyda chaeadau metel a phlastig) fel drymiau**

Nawr ewch ati i annog y preswylwyr i chwarae eu hofferynnau gan gadw at yr un curiad neu rythm.

Gallech greu eich band Ffync Jync eich hun!

3



# Cerddoriaeth

# Hen ganeuon, geiriau newydd

**Mae'n hwyl ysgrifennu eich caneuon eich hun.**

**Gweithgaredd haws o lawer ydi ysgrifennu geiriau newydd i hen alaw!**

- **Dewis cân boblogaidd**
- **Gall fod yn unrhyw gân: Elvis efallai, neu'r Beatles, neu gân draddodiadol fel She'll Be Coming 'Round the Mountain**
- **Ewch ati i argraffu'r geiriau fel bod y preswylwyr yn dod yn gyfarwydd â'r gân**
- **Wedyn rhaid annog y preswylwyr i feddwl am eiriau newydd am thema benodol, neu am eu cartref efallai**

2



age Cymru

# Cerddoriaeth

# Bloom HD

**Os oes gennych chi iPad ar gael i'w ddefnyddio yn y sesiynau creadigol, mae Bloom HD yn un esiampl o ap sy'n galluogi i bobl sydd â rheolaeth gyfyngedig o ran sgiliau motor cain gyfrannu at weithgaredd cerddorol.**

Mae posib lawrlwytho Bloom HD o'r App Store. Mae apiau eraill ar gael hefyd.

Gyda Bloom HD, mae cyffwrdd y sgrin yn cynhyrchu nodyn a lliw. Mae'r ap yn gwneud dolen o'r sain a'r lliw yma cyn galluogi i chi ychwanegu seiniau newydd.

Mae'r ap yma'n gweithio'n dda ar gyfer gweithgareddau un i un ond hefyd mae posib ei ddefnyddio i ysbrydoli seinwedd a gweithgareddau grŵp.

1



# Cerddoriaeth

# Hel atgofion

**Mae rhoi bocs o bethau i'w hysgogi at ei gilydd, pethau i brocio'r cof, yn ffordd hawdd o helpu'r preswylwyr i ddechrau meddwl yn fwy creadigol. Wedyn gall y gwrthrychau yma ysbrydoli gweithgareddau cerddorol.**

**Llenwch focs gyda gwrthrychau sy'n berthnasol i wahanol dymhorau'r flwyddyn:**

- **Torch flodau Nadoligaidd**
- **Potel o eli haul**
- **Gwlân oen**
- **Deilen grin yr hydref**

Gofynnwch i rywun yn y grŵp ddewis gwrthrych ac wedyn ewch ati i annog y grŵp i rannu eu hatgofion am y gwrthrych hwnnw.

Chwiliwch am gân i gynrychioli pob tymor ac ewch ati i annog eich grŵp i ganu'r gân cyn symud ymlaen at y gwrthrych nesaf.

2